

**Rhoddi byw
fel pêr – arennau**



Ateb i'ch cwestiynau

0300 123 23 23

www.organdonation.nhs.uk

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth os ydych chi'n ystyried trawsblaniad drwy roddwyr byw wedi'u paru. Mae'n bwysig eich bod yn darllen y daflen hon ynghyd â thaflen yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, *Gwybodaeth am drawsblaniadau drwy roddwyr byw*, a'r holl wybodaeth arall a gewch fel eich bod yn gwbl ymwybodol o'r hyn y mae'n ei olygu i'r rhoddwr byw ac i'r sawl sy'n cael yr organ.


Beth yw'r **Ddeddf Meinweoedd Dynol**?

Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 i Loegr, Cymru a Gogledd Iwerddon a Deddf Meinweoedd Dynol (yr Alban) 2006 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhoddi organau a meinweoedd yn y DU. Mae'r rheolau sy'n cael eu datgan gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HCA) yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran pwy a all fod yn rhoddwr aren byw a phwy sy'n cael rhoddi i bwy. Mae hyn yn golygu y gall rhagor o bobl sydd â methiant yr arennau elwa o drawsblaniad gan roddwr byw. Un o'r opsiynau ychwanegol hyn yw rhoddi fel pêr neu rod-di cyfun.

Fel rhan o'r Ddeddf Meinweoedd Dynol, rhaid i'r HCA gymeradwyo'r holl lawdriniaethau trawsblannu sy'n cynnwys rhoddwyr byw ar ôl gwneud asesiad annibynnol.

Beth yw **rhoddi fel pêr**?

Pan fydd rhoddwr a derbynnydd yn anghydnaws neu ddim yn cydweddu, naill ai oherwydd grŵp gwaed neu fath o feinwe, mae'n bosib bod modd iddynt gael eu cydweddu â phâr arall o roddwr a derbynnydd sydd yn yr un sefyllfa ac i'r arennau gael eu cyfnewid. Gelwir hyn yn rhoddi fel pêr. Mantais y math hwn o rod-di yw bod pob derbynnydd yn cael y trawsblaniad na fyddai wedi'i gael fel arall. Nid yw rhoddi fel pêr ond wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer trawsblannu arennau.



Gall cyfnewid arennau gynnwys mwy na dau bâr ar y tro. Gelwir hyn yn rhoddi cyfun.

Sut y byddwn yn gwybod **fy mod yn gymwys ar gyfer y cynllun?**

Gall rhoddi fel pâr fod yn un o amrywiol ddewisiadau yr hoffech feddwl amdanynt. Bydd eich canolfan drawsblannu leol yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi am roddi fel pâr a gan drafod mewn manylder a yw'n opsiwn da i chi. Bydd hyn yn dibynnu ar nifer o wahanol ystyriaethau a bydd yn bersonol i bawb. Mae rhai derbynwyr a rhai parau derbynnydd/rhoddwr nad yw rhoddi fel pâr yn opsiwn realistig iddynt oherwydd ei bod yn annhebygol y bydd pâr sy'n cydweddu'n cael ei ganfod.



Beth y mae **asesu'r rhoddwr yn ei olygu?**

Caiff rhoddwyr posib eu hasesu yn yr un ffordd yn union â phob rhoddwr byw arfaethedig arall, yn unol â chanllawiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, yn eu canolfan drawsblannu arennau leol (gweler y daflen 'Allwn i fod yn gyfrannydd aren byw?').

Mae'r llawdriniaeth a'r risgiau cysylltiedig yr un fath ag ar gyfer unrhyw broses rhoddi aren byw arall. Mae'n bosib i fwy nag un rhoddwr fod wedi cael ei gofrestru ar gyfer pob derbynnydd os oes nifer o roddwyr sy'n barod ac yn addas.

Sut y mae'r broses yn gweithio?

Ar ôl asesu'r derbynnydd a'r rhoddwr, caiff y pâr eu cofrestru ar Gofrestrfa Drawsblaniadau'r DU. Yn y cam hwn mae'n bosib gosod cyfyngiadau ar raddau anghydweddiad y meinwe ac oedran uchaf y rhoddwr arfaethedig sy'n dderbyniol i chi.

Er hynny, mae'n bwysig bod yn ymwybodol y bydd cyfyngiadau llym iawn yn gostwng llawer iawn ar eich siawns o gael cydweddiad llwyddiannus ac felly dylech drafod hyn gyda'ch canolfan drawsblannu.

Bydd derbynwyr sydd hefyd ar y rhestr genedlaethol am aren gan roddwr marw yn aros ar y rhestr honno nes bydd cydweddiad addas ar gyfer rhoddi fel pâr yn cael ei ganfod.

Yn rheolaidd, mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT) yn cyflawni 'ymarferiad cydweddu' i ganfod cydweddiad posib ar gyfer trawsblaniad. Caiff pob 'ymarferiad cydweddu' ei gyflawni gan raglen gyfrifiadurol unigryw, sy'n seiliedig ar feini prawf y cytunwyd arnynt i gael y nifer a'r cyfuniad gorau o gydweddiadau.

Ni fydd cydweddiad yn cael ei ganfod ar gyfer pob pâr bob tro ond, yn ddibynol ar faint y rhestr, gallai hyd at 40% o barau gael eu cydweddu ym mhob ymarferiad. Caiff pâr aros ar y rhestr am gyn hired ag y dymunant, ond nid yw arhosiad hir yn sicrhau y bydd cydweddiad yn cael ei ganfod.

Beth sy'n digwydd **unwaith y bydd parau wedi cael eu cydweddu?**

Pan gaiff parau addas eu cydweddu, bydd NHSCT yn hysbysu'r canolfannau trawsblannu ac yna bydd angen cadarnhau'r cydnawsedd rhwng y parau drwy draws-gydweddu'r math o feinwe, yn ddelfrydol cyn pen dwy wythnos o'r 'ymarferiad cydweddu'.

Ar ôl i'r cydnawsedd gael ei gadarnhau, caiff enwau'r derbynwyr eu tynnu oddi ar y rhestr drawsblaniadau genedlaethol am arennau gan roddwyr marw, dros dro, nes i drawsblaniad y rhoddwyr sydd wedi'u paru gael ei gyflawni.

Cyn i'r llawdriniaethau trawsblannu gael eu perfformio, rhaid i'r trawsblannu gael ei gymeradwyo gan yr HTA. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i'r holl roddwyr a'r derbynwyr weld Asesydd Annibynnol Lleol (wedi'i hyfforddi a'i achredu gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol), gall y sawl hwn argymhell i'r HTA y dylai'r llawdriniaeth trawsblannu gael ei chymeradwyo. Os bodlonwyd yr holl ofynnol cyfreithiol dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol, gall yr Awdurdod Meinweoedd Dynol roi'r gymeradwyaeth derfynol.

Mae'n bosib i'r trawsblaniadau gael eu cyflawni oddeutu chwe wythnos ar ôl yr 'ymarferiad cydweddu', er y bydd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan fod yn rhaid i'r dyddiad fod yn hwylus i'r ddau bâr.

Caiff y trawsblaniadau eu cynllunio rhwng y canolfannau trawsblannu fel bod y llawdriniaethau'n cael eu cyflawni ar yn union yr un pryd ar yr un diwrnod. Bydd rhoddwyr a derbynwyr fel arfer yn cael eu llawdriniaethau yn eu canolfan drawsblannu leol a gwneir trefniadau arbennig i gludo'r arenau a roddir yn gyflym ac yn ddiogel rhwng y ddwy ganolfan. Mae'n bosib y gellir gwneud trefniadau eraill (er enghraifft, gallai'r rhoddwr deithio i'r ganolfan drawsblannu arall i gael ei llawdriniaeth), os yw pawb dan sylw yn cytuno a bod y ddwy ganolfan drawsblannu'n gallu darparu ar gyfer y trefniadau.

Dylai parau'r rhoddwyr a'r derbynwyr aros yn ddiennw tan y llawdriniaeth. Ar ôl y trawsblaniad gallai fod yn bosib i barau rhoddwyr-derbynwyr gyfarfod neu gysylltu â'i gilydd, os yw pawb dan sylw'n cytuno. Byddai hyn yn cael ei hwyluso drwy'r cydgysylltydd trawsblaniadau.

Sut y byddwn yn gwybod y byddwn yn cael aren dda?

Caiff pob rhoddwr ei asesu yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac ni allant ond cael eu cofrestru os yw canlyniadau'r holl brofion yn foddhaol. Bydd yr holl fanylion pwysig a pherthnasol am aren y rhoddwr yn cael eu rhoi i'ch meddyg a byddwch yn gallu trafod unrhyw bryderon sydd gennych gydag ef.

Beth yw manteision y cynllun?

Prif fantais y cynllun yw ei fod yn cynnig i bob derbynnydd y fantais o drawsblaniad arenau drwy roddwr byw er nad yw'r rhoddwr a'i dderbynnydd arfaethedig ef/hi yn gydnaws. Y gwahaniaeth yw bod y derbynnydd yn cael aren gan rywun nad yw'n ei adnabod yn hytrach nag oddi wrth roddwr y mae'n

ei adnabod yn dda. Yn yr un modd, mae'r rhoddwr yn rhoi i dderbynnydd nad yw ef/hi yn ei adnabod.

A oes unrhyw **anfanteision i'r cynllun?**

Mae llawer o barau nad ydynt yn cael eu cydweddu pan wneir ymarferiad cydweddu. Mae hyn yn golygu nad oes modd rhagweld am ba mor hir y bydd yn rhaid i glaf aros o bosib cyn dod o hyd i gydweddiad addas.

Unwaith y bydd parau wedi cael eu cydweddu, eu cydnawsedd wedi'i gadarnhau a chymeradwyaeth HTA wedi'i sicrhau, gellir cynllunio'r llawdriniaeth ar gyfer y ddau bâr rhoddwr-derbynnydd. Er bod pob gofal yn cael ei gymryd, mae risg fechan na fydd y llawdriniaeth yn mynd rhagddi fel y bwriedir iddi wneud, gan adael y derbynnydd heb drawsblaniad llwyddiannus. Mae'n anarferol iawn i aren a roddir gan roddwr byw fethu â chael ei thrawsblannu i'r derbynnydd arfaethedig, ond mae'n bwysig bod yr holl roddwyr a'r derbynwyr mewn sefyllfa rhoddwyr fel pâr yn rhoi ystyriaeth i hyn.

I gael **gwybodaeth bellach**

Allwn i fod yn gyfrannydd aren byw? Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, Hydref 2004, diweddarwyd Mehefin 2006. Ar gael oddi wrth y Llinell Rhoddwyr 0300 123 23 23 neu www.organdonation.nhs.uk

Gwybodaeth am drawsblaniadau drwy roddwyr byw, yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, diweddarwyd Hydref 2007. Ar gael oddi wrth eich Uned Drawsblaniadau Leol neu www.hta.gov.uk

Canllawiau'r DU ar gyfer Trawsblaniadau Arennau drwy Roddwyr Byw, Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain/ Cymdeithas yr Arennau, ail rifyn, Ebrill 2005. Ar gael oddi ar www.bts.org.uk